



Sganiau a phrofion yn dilyn anaf i'r ymennydd

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Pwy sy'n gyfrifol am gynnal sganiau / profion?.....	1
Pelydr-X	2
Tomograffeg gyfrifiadurol (CT)	3
Delweddu cyseiniant magnetig (MRI)	4
Tomograffeg gollwng positronau (PET)	6
Sganiau a phrofion eraill	7
Electro-enseffalograffeg (EEG)	7
Tomograffeg gyfrifiadurol allyrru ffoton unigol (SPECT)	8
Delweddu cyseiniant magnetig gweithredol (fMRI)	8
Aros am ganlyniadau eich sgan / prawf	9
Dehongli canlyniadau eich sgan / prawf	9
Casgliad	9
Geirfa	10

Cyflwyniad

Defnyddir amrywiaeth o wahanol fathau o sganiau a phrofion ar yr ymennydd i wneud diagnosis o anaf i'r ymennydd a'i fonitro. Bydd y math o sgan a ddefnyddir yn dibynnu ar natur yr anaf gan fod gwahanol sganiau yn sensitif i wahanol bethau. Bydd y timau meddygol sy'n gyfrifol am gynnal y sganiau yn penderfynu pa fath o sgan sy'n addas yn dibynnu ar bethau megis math o anaf, lleoliad yr anaf a'i effeithiau.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth am sganiau amrywiol a ddefnyddir yn aml a beth i'w ddisgwyl os bydd goroeswr yn cael ei atgyfeirio at un ohonyn nhw. Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer goroeswyr anaf i'r ymennydd yn ogystal â theuluoedd a gofalwyr.

Diffinnir y geiriau mewn **font** trwm mewn rhestr eirfa ar ddiwedd y daflen ffeithiau.

Pwy sy'n gyfrifol am gynnal sganiau / profion?

Mae dau gam i bob sgan a phrawf: cynnal y sgan / prawf, ac yn dilyn hynny, dehongli canlyniadau'r sgan / prawf.

Radiograffydd sy'n gyfrifol am weithredu'r offer sganio a chynnal y sgan ei hun.



Radiologydd sy'n gyfrifol am ddehongli canlyniadau'r sgan ac am anfon adroddiad ysgrifenedig at eich meddyg neu ymgynghorydd. Yna byddwch yn cael gwybodaeth am yr hyn y mae'r sgan yn ei ddangos a'r hyn y mae'r canlyniadau yn ei olygu.

Pelydr-X

Beth yw Pelydr-X a phryd caiff ei ddefnyddio?

Math o ymbelydredd sy'n gallu pasio drwy'r corff heb wneud niwed yw pelydr-X. Defnyddir peiriant i gyfeirio pelydrau-X at ran o'r corff sydd wedi ei effeithio a bydd synhwyrdd ar yr ochr arall yn creu delweddau ohono. Mae pelydrau-X yn pasio drwy'r corff ar raddfeydd gwahanol yn dibynnu ar ddwysedd y feinwe. Er enghraifft, gan fod esgyrn yn drwchus iawn ni all pelydrau-X basio trwyddyn nhw, ac felly byddant yn ymddangos yn eglur ac yn wyn ar ddelweddau pelydr-X. Mae organau yn feddal, felly gall pelydrau-X basio trwyddyn nhw, ac ymddengys lliwiau'r rhain yn dywyllach.

Gellir defnyddio pelydr-X i ganfod unrhyw niwed i asgwrn megis toriadau yn y penglog. Fodd bynnag, yn raddol mae sganiau CT o'r pen yn cymryd lle pelydr-X. Am fwy o wybodaeth gweler yr adran *Computerised Tomography (CT)*.

Beth sy'n digwydd cyn pelydr-X?

Fel arfer nid oes angen unrhyw barotoadau arbennig cyn cael pelydr-X.

Beth sy'n digwydd yn ystod pelydr-X?

Bydd y radiograffydd yn gofyn ichi orwedd i lawr neu eistedd yn dibynnu ar ba ran o'r corff sydd angen pelydr-X. Gosodir y peiriant yn ei le, yna bydd y radiograffydd yn mynd y tu ôl i sgrin i weithredu'r pelydr-X.

Mae'n bwysig aros yn llonydd pan fo'r peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio er mwyn i'r delweddau fod mor eglur â phosibl. Ni fyddwch yn gweld dim na theimlo dim pan ddefnyddir y peiriant pelydr-X. Efallai y bydd angen tynnu mwy nag un llun pelydr-X o wahanol onglau.

Bydd y broses gyfan ond yn para ychydig o funudau.

Beth sy'n digwydd ar ôl pelydr-X?

Unwaith mae'r prawf pelydr-X wedi ei gwblhau, cewch fynd adref. Nid yw pelydr-X yn achosi ôl-effeithiau.

Beth yw'r risgiau posibl wrth ddefnyddio pelydrau-X?

Ychydig iawn o ymbelydredd a ddefnyddir gan belydrau-X. Er hynny trefnwyd bod pob pelydr-X yn cynhyrchu'r ddelwedd orau gan ddefnyddio cyn lleied â phosibl o ymbelydredd. Mae'r risg o gael problemau yn y dyfodol yn isel iawn.



Tomograffeg Gyfrifiadurol (CT)

Beth yw sgan CT a phryd gaiff ei ddefnyddio?

Mae sgan CT, a elwir weithiau yn Tomograffeg Echelinol Gyfrifiadurol (CAT), yn defnyddio cyfres o belydrau-X i dynnu lluniau manwl o rannau mewnol y corff. Fel arfer dyma'r math cyntaf o sgan a ddefnyddir pan fo anaf i'r ymennydd yn cael ei ganfod.

Mae'r sganiwr CT yn edrych fel cylch mawr gyda gwely sganiwr yn sownd ynddo. Tu mewn i'r cylch mae pelydrau-X yn cylchdroi o amgylch y corff sydd y tu mewn i'r sganiwr, ac yn taro yn erbyn synhwyrdd ar yr ochr arall. Drwy'r broses hon cynhyrchir nifer fawr o ddelweddau o'r benglog a'r ymennydd o wahanol onglau i greu delwedd 3D manwl o du mewn i'r pen. Gellir defnyddio hwn wedyn i ganfod lleoliad a maint yr anaf i'r ymennydd.

Mae sganiau CT yn cael ei gweithredu'n gyflym ac maen nhw'n llai sensitif i symudiadau o'u cymharu â sganiau eraill, sy'n eu gwneud yn offer defnyddiol mewn argyfwng meddygol. Fe'u defnyddir yn aml hefyd i fonitro anafiadau a chynnig gwybodaeth ar gyfer triniaethau neu brofion.

Beth sy'n digwydd cyn sgan CT?

Fel arfer nid oes angen unrhyw baratodau arbennig cyn cael sgan CT. Ond weithiau rhoir chwistrelliad bach yn cynnwys **llifyn cyferbyniad** cyn y sgan. Mae'r **llifyn cyferbyniad** yn gwneud delweddau'r CT yn fwy eglur ac mae'n helpu i ganfod abnormaleddau. Os oes angen **llifyn cyferbyniad**, cewch chi fwy o wybodaeth a chyfle i ofyn unrhyw gwestiynau o flaen llaw.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan CT ?

Bydd y radiograffydd yn gofyn ichi orwedd ar wely'r sganiwr a fydd yn symud yn araf i mewn i'r sganiwr CT. Nid yw'r sganiwr yn amgylchynu'r corff i gyd ar unwaith felly ni ddylai fod yn rhy anghyfforddus.

Yna bydd y radiograffydd yn gadael yr ystafell i weithredu'r sganiwr mewn ystafell gyfagos. Byddwch yn dal i allu clywed y radiograffydd a siarad ag ef drwy intercom yn ystod y sgan.

Fel arfer mae sganiau CT yn para oddeutu 15 munud.

Beth sy'n digwydd ar ôl sgan CT?

Pan ddaw'r sgan i ben, bydd y radiograffydd yn dychwelyd i'r ystafell i'ch helpu i ddod allan o'r sganiwr. Gallwch adael ar unwaith gan nad yw sgan CT fel arfer yn achosi ôl-ffeithiau.

Os yw'r sgan yn cynnwys **llifyn cyferbyniad**, efallai y bydd raid ichi aros 15 i 30 munud



ychwanegol ar ôl y sgan i sicrhau nad achoswyd unrhyw effeithiau andwyol.

Beth yw'r risgiau posibl wrth ddefnyddio sgan CT?

Mae sganiau CT yn defnyddio cyfres o belydrau-X, felly byddwch yn dod i gysylltiad ag ychydig bach o ymbelydredd. Ond gwneir pob ymdrech i gadw'r ymbelydredd yn isel.

Mae'r **llifyn cyferbyniad** sydd ei angen mewn rhai sganiau CT yn cynnwys iodid. Cyn y sgan dylech hysbysu'r radiograffydd os oes gennych alergedd i iodid. Cewch fwy o wybodaeth am lifynnau cyferbyniad gan eich meddyg neu'r radiograffydd.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r risgiau a bod angen mwy o wybodaeth arnoch yna bydd eich meddyg a'r radiograffydd yn gallu ateb eich cwestiynau.

Delweddu cyseiniant magnetig (MRI)

Beth yw sgan MRI a phryd gaiff ei ddefnyddio?

Mae sganiau MRI yn defnyddio meysydd magnetig a thonnau radio i dynnu lluniau manwl iawn o rannau mewnol y corff o wahanol onglau. Mae'r sganiwr MRI yn edrych yn debyg i sganiwr CT, ac mae ar ffurf cylch agored gyda gwely sganiwr yn rhan ohono. Er hynny mae sganwyr MRI yn hirach, ychydig fel tiwb, ac maen nhw'n amgylchynu mwy o'r corff na sganwyr CT.

Efallai y cewch eich atgyfeirio i gael sgan MRI er mwyn cael gwybodaeth fanwl am eich anaf i'r ymennydd. Gellir ei ddefnyddio i gynllunio triniaethau a gwirio pa mor effeithiol ydyn nhw.

Beth sydd yn digwydd cyn sgan MRI?

Cyn ichi gael eich sgan MRI, gofynnir ichi gwblhau rhestr gyfeirio diogelwch a fydd yn holi am eich iechyd, ac a oes gennych fewnblaniadau metel. Gwnânt hyn oherwydd mae MRI yn defnyddio magnedau pwerus, a gall unrhyw fetel sydd wedi ei fewnblannu yn eich corff (megis pinnau, clipiau anewrysm neu goiliau) ystumio delweddau a chael eu symud ychydig gan y sganiwr. Mae'n hanfodol bwysig felly eich bod yn onest wrth gwblhau'r rhestr gyfeirio os oes gennych unrhyw fetel yn eich corff neu os ydych yn cario metel (megis wats, ffonau, arian parod neu emwaith).

Os hoffai'r teulu neu ofalwyr aros yn ystafell y sganiwr gyda chi, bydd yn ofynnol iddyn nhw hefyd gwblhau rhestr gyfeirio diogelwch i sicrhau nad oes unrhyw fetel arnyn nhw.

Efallai y gofynnir ichi a ydych yn dioddef o glawstroffobia (ofni bod mewn gofod cyfyng), oherwydd gall y sganiwr fod yn ofod cyfyng a chul a byddwch yn gorfod gorwedd yn llonydd am beth amser. Os ydych yn dioddef o glawstroffobia yna efallai y gall staff yr ysbyty gynnig mecanwaith ymdopi ichi o flaen llaw a byddant yn tawelu eich meddwl trwy



gydol y sgan (byddwch yn gallu siarad â nhw tra'r ydych yn y sganiwr).

Gofynnir hefyd a ydych yn dioddef o dinitws (sŵn canu yn y glust), oherwydd gallai sŵn y sganiwr gael effaith arno.

Nid oes angen unrhyw baratodau arbennig eraill ar gyfer sgan MRI. Mewn rhai achosion efallai y rhoddir chwistrelliad o **lifyn cyferbyniad** i wneud delweddau yn fwy eglur. Os oes angen chwistrelliad arnoch yna bydd y radiograffydd neu'ch meddyg yn esbonio hyn ichi yn fanylach.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan MRI?

Yn dilyn y sgrinio cychwynnol, bydd y radiograffydd yn gofyn ichi orwedd ar wely'r sganiwr ac yn rhoi cyfarpar amddiffyn clyw ichi gan fod sŵn y sganiwr yn gallu bod yn uchel. Efallai y caiff eich pen ei roi mewn ffrâm (yn debyg i helmed), oherwydd gall hyn helpu i gynhyrchu delweddau mwy eglur.

Pan fyddwch yn gyfforddus a thu mewn i'r sganiwr, bydd y radiograffydd yn gadael yr ystafell i weithredu'r sganiwr mewn ystafell gyfagos. Bydd seiniwr argyfwng ar gael rhag ofn ichi deimlo ar unrhyw adeg bod rhaid ichi ddod allan o'r sganiwr. Gallwch glywed y radiograffydd a siarad ag ef drwy intercom yn ystod y sgan.

Fel arfer mae sganiau MRI yn para rhwng 20 munud ac awr.

Beth sy'n digwydd ar ôl sgan MRI?

Pan fydd digon o ddelweddau wedi eu cynhyrchu, bydd y radiograffydd yn dychwelyd i'r ystafell i'ch helpu i ddod allan o'r sganiwr. Gallwch adael yn fuan ar ôl y sgan gan nad yw'n achosi ôl-ffeithiau.

Os yw'r sgan yn cynnwys **llifyn cyferbyniad**, efallai y bydd raid ichi aros 15 i 30 munud ychwanegol ar ôl y sgan i wneud yn siŵr nad achoswyd unrhyw effeithiau andwyol.

Beth yw'r risgiau posibl wrth ddefnyddio sganiau MRI ?

Nid oes risgiau yn gysylltiedig â sganiau MRI. Hyd yn hyn ni chafwyd adroddiadau am unrhyw un yn dioddef o effeithiau gwael ar ôl dod i gysylltiad â meysydd magnetig cryf. Serch hynny gall rhai pobl deimlo'n benysgafn neu ddioddef cur pen, neu'r ddau gyda'i gilydd ar ôl gorwedd yn y sganiwr am gyfnod.

Nid yw MRI yn addas ar gyfer pobl sydd â metel tu mewn i'w cyrff, megis rheoliaduron y galon neu glipiau llawfeddygol. Gall gorwedd mewn sganiwr MRI fod yn brofiad anodd os ydych yn dioddef o glawstrophobia.

Mae'r **llifyn cyferbyniad** sydd ei angen mewn rhai sganiau MRI yn cynnwys iodid. Dylech



felly hysbysu'r radiograffydd os oes gennych alergedd i ïodin.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r weithdrefn neu'r risgiau yn gysylltiedig â sgan MRI, bydd y meddyg neu'r radiograffydd yno i ateb eich cwestiynau.

Tomograffeg gollwng positronau (PET)

Beth yw sgan PET a phryd gaiff ei ddefnyddio?

Mae sganiau PET yn cynnwys rhoi **olinydd ymbelydrol** yn y corff ac mae hwn yn allyrru lefelau isel o ymbelydredd sy'n cael eu canfod gan y sganiwr i gynhyrchu delweddau 3D manwl o weithgarwch yn yr ymennydd. Mae'r peiriant sganio yn edrych yn debyg i sganiwr MRI. Mae sganio PET yn weithdrefn ddiogel. Fe'i defnyddir yn aml ar y cyd â sganwyr CT neu MRI (sef **sgan cyfunol**) i dynnu lluniau mwy eglur o feinwe'r ymennydd yn dilyn anaf.

Defnyddir sganiau PET i ganfod gweithgarwch yn yr ymennydd ac felly gall fod o gymorth wrth wneud diagnosis o epilepsi, anaf difrifol i'r ymennydd neu anhwylderau ymwybod.

Beth sy'n digwydd cyn PET?

Mae cael sgan PET yn golygu rhywfaint o baratoi ymlaen llaw. Efallai y bydd angen ichi beidio bwyta ac osgoi unrhyw ymarfer egnïol am 6 awr cyn y sgan. Bydd eich llythyr apwyntiad yn rhoi manylion unrhyw baratodau sydd angen eu gwneud cyn mynd i gael sgan PET.

Oddeutu awr cyn eich sgan fe gewch chi chwistrelliad sy'n cynnwys **olinydd ymbelydrol**. Bydd y sganiwr yn dod o hyd i hwn yn ystod y sgan.

Beth sy'n digwydd yn ystod sgan PET?

Yn dilyn y chwistrelliad gofynnir ichi orwedd ar wely'r sganiwr PET. Unwaith yr ydych chi'n gyfforddus, bydd y radiograffydd yn symud y gwely i mewn i'r sganiwr.

Bydd seiniwr argyfwng ar gael rhag ofn ichi deimlo ar unrhyw adeg bod yn rhaid ichi ddod allan o'r sganiwr. Gallwch glywed y radiograffydd a siarad ag ef drwy intercom yn ystod y sgan.

Fel arfer mae sganiau PET yn para rhwng 30 munud ac awr.

Beth sy'n digwydd ar ôl sgan PET?

Pan fydd digon o ddelweddau wedi eu cynhyrchu, bydd y radiograffydd yn dychwelyd i'r ystafell i'ch helpu i ddod allan o'r sganiwr. Gallwch adael yn fuan ar ôl y sgan gan nad yw'n achosi ôl-ffeithiau fel arfer.

Efallai y cewch eich cyngori i yfed digonedd o hylifau i gael gwared â'r olinydd



ymbelydrol yn gyflym.

Beth yw'r risgiau posibl wrth ddefnyddio sganiau PET?

Mae sganiau PET yn defnyddio **olinyddion ymbelydrol** sy'n cynnwys [sylwedd ag ymbelydredd gwan](#). Sut bynnag, byddwch ond yn dod i gysylltiad ag ychydig iawn o ymbelydredd ac felly bydd y risgiau'n isel. Bydd yr [olinyddion ymbelydrol](#) wedi gadael eich corff yn llwyr o fewn 3-4 awr. Bydd y radiograffydd, y radiolegydd a'ch meddyg bob tro yn sicrhau bod gan sgan PET fwy o fanteision na risgiau.

Os cewch eich [atgyfeirio](#) i gael **sgan cyfunol** bydd y risgiau yr un fath â'r rhai sydd ynghlwm â sganiau CT, MRI a PET.

Cewch fwy o wybodaeth a manylion am weithdrefn sganiau cyfunol gan eich meddyg neu radiograffydd.

Sganiau a phroffion eraill

Defnyddir y sganiau y sonnir amdanynt yn yr adrannau blaenorol yn aml i ganfod a monitro anaf i'r ymennydd. Serch hynny defnyddir amrywiaeth o sganiau a phroffion eraill i ganfod cyflyrau neu effeithiau penodol anaf i'r ymennydd. Eglurir y rhain yn weddol fanwl isod.

Eelectro-enseffalograffeg (EEG)

Mae EEG yn canfod gweithgarwch mewn rhannau o'r ymennydd drwy fesur gweithgarwch trydanol naturiol yn yr ymennydd (mae celloedd yr ymennydd yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn prosesu gwybodaeth drwy signalau trydanol). Mesurir y gweithgarwch drwy osod **electrodau** ar groen y pen, sy'n weithred ddi-boen.

Mae EEG yn brawf defnyddiol i ganfod a monitro gweithgarwch anarferol yn yr ymennydd yn dilyn anaf i'r ymennydd. Defnyddir EEG hefyd i roi gwybodaeth ddefnyddiol am rai effeithiau anaf i'r ymennydd, megis problemau yn ymwneud â'r cof a chwsig. Yn aml hefyd defnyddir EEG i ymchwilio i achosion o epilepsi.

Cyn cael EEG efallai y cewch eich cynghori i olchi eich gwallt, oherwydd bydd hyn yn helpu'r **electrodau** i lynu wrth groen eich pen. Yn aml rhoddir gel ar groen y pen i'w gwneud hi'n haws i'r **electrodau** ddod o hyd i signalau'r ymennydd. Mewn rhai achosion defnyddir cap elastig (yn debyg i gap nofio) gyda'r **electrodau** yn sownd iddo eisoes. Cysylltir yr **electrodau** hyn i gyfrifiadur er mwyn cofnodi tonnau'r ymennydd.

Yn ystod yr EEG gofynnir ichi gwblhau rhai tasgau megis edrych ar luniau neu anadlu'n ddwfn am ychydig o funudau.



Fel arfer mae EEG yn para rhwng 30 munud ac awr oherwydd y gwaith paratoi sydd ei angen cyn y prawf ei hun.

Ar ôl yr EEG, tynnir yr electrodau a glanheir eich croen pen i gael gwared ag unrhyw gel sy'n weddill. Nid yw EEG yn achosi ôl-ffeithiau, felly cewch fynd adref yn fuan wedi'r prawf.

Mae profion EEG yn ddi-boen ac yn ddiogel. Ni fyddwch yn teimlo'n anesmwyth gan nad yw'r **electrodau** yn allyrru unrhyw drydan nac yn brifo. Bydd risg isel y gallai rhai o'r tasgau y gofynnir ichi eu cwblhau yn ystod y prawf achosi trawiad os ydych yn dioddef o epilepsi, er enghraifft os bydd goleuadau'n fflachio. Serch hynny, bydd staff meddygol gyda chi drwy'r amser i roi unrhyw gymorth neu gefnogaeth.

Tomograffeg gyfrifiadurol allyrru ffoton unigol (SPECT)

Mae sganiau SPECT yn debyg i sganiau PET gan eu bod yn dibynnu ar chwistrellu **olinydd ymbelydrol** i greu delweddau o rannau mewnol y corff. Serch hynny, mae'r **olinydd ymbelydrol** a ddefnyddir mewn sgan SPECT yn aros yn y corff am fwy o amser nag mewn sgan PET ac mae'n gallu dod o hyd i rannau o'r ymennydd lle mae llif y gwaed yn llai.

Mae sganiau SPECT yn rhai arbenigol, felly ni chânt eu defnyddio'n aml. Maen nhw'n hynod o effeithiol yn dangos rhannau o'r ymennydd sydd wedi eu hanafu, yn enwedig yn dilyn anaf difrifol i'r ymennydd. Fe'i defnyddir hefyd mewn achosion o epilepsi i adnabod lleoliad y trawiad. Gall sganiau SPECT hefyd roi gwybodaeth ychwanegol i helpu i gynllunio llawdriniaethau a thriniaethau hirdymor.

Ar ôl cael yr **olinydd ymbelydrol** gofynnir ichi orwedd ar wely'r sganiwr a bydd y peiriant SPECT yn cylchdroi o amgylch eich pen i gasglu delweddau 3D o'ch ymennydd. Bydd yr **olinydd ymbelydrol** yn gadael eich corff o fewn ychydig oriau. Efallai y cewch eich cynghori i yfed digonedd o hylifau i gael gwared â'r olinydd ymbelydrol yn gyflym.

Delweddu cyseiniant magnetig gweithredol (fMRI)

Math arbennig o sgan MRI yw'r fMRI. Defnyddia'r un sganiwr a'r un dulliau â'r MRI i gael delweddau o rannau mewnol y corff. Mae'r fMRI yn edrych ar weithgarwch drwy fesur llif y gwaed. Y prif wahaniaeth rhwng MRI ac fMRI yw bod MRI yn cynhyrchu delweddau llonydd o strwythur yr ymennydd a bod fMRI yn gallu adnabod pa rannau o'r ymennydd sy'n weithredol dan wahanol amgylchiadau.

Gan amlaf defnyddir sganiau fMRI i ymchwilio i anhwylderau'r ymwybod. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i gynllunio triniaethau tymor hir ac i fonitro gweithgarwch yr ymennydd.

Gan fod yr un peiriant yn cael ei ddefnyddio, mae gan sganiau fMRI yr un gweithdrefnau a



risgiau â sganiau MRI. Mewn sganiau fMRI efallai y bydd raid ichi gyflawni tasgau wrth orwedd yn y sganiwr megis symud bysedd, darllen neu feddwl am bethau penodol. Mae hyn yn golygu y gall sgan fMRI gymryd mwy o amser na sgan MRI.

Aros am ganlyniadau eich sgan/prawf

Gall disgwyl am ganlyniadau eich sgan neu brawf wneud ichi deimlo'n bryderus. Ond mae'n bwysig ichi gofio y gall dadansoddi unrhyw ganlyniadau sgan neu brawf fod yn broses hir a chymhleth, a bydd gwahanol brofion a sganiau yn dibynnu ar wahanol fathau o ddadansoddi. Felly, gall gymryd rhai wythnosau cyn cael y canlyniadau.

Os nad ydych wedi cael eich canlyniadau ar ôl ychydig o wythnosau, a heb gael mwy o wybodaeth amdanynt, gofynnwch i'ch meddyg, nyrs neu niwrolegydd i holi yn eu cylch.

Efallai y gwnaiff eich meddyg neu'ch ymgynghorydd ddangos canlyniadau eich sgan ichi, ar y llaw arall efallai byddwch yn dymuno cael copi ohonyn nhw. Beth bynnag, mae gennych hawl gyfreithiol i weld eich cofnodion meddygol a fydd yn cynnwys canlyniadau eich sgan. Ceir gwybodaeth am hyn ar wefan y GIG www.nhs.uk/chq/pages/1309.aspx?categoryid=68.

Dadansoddi canlyniadau eich sgan/prawf

Dylai'ch meddyg teulu neu niwrolegydd ddadansoddi canlyniadau eich sgan a'u trafod gyda chi. Efallai y defnyddir termau meddygol nad ydych yn siŵr o'u hystyr, a dylai fod yn bosib ichi ofyn iddyn nhw esbonio'r rhain ichi. Efallai y gall llinell gymorth Headway esbonio rhai termau meddygol. Ond ni fyddant yn gallu dadansoddi canlyniadau sgan neu brawf na rhoi diagnosis.

Mae'n bwysig cofio, er bod sganiau o'r ymennydd yn ddefnyddiol wrth wneud diagnosis neu wrth fonitro anaf i'r ymennydd, nid ydynt bob amser yn datgelu anaf, yn enwedig os yw'r anaf dros ardal eang neu'n anaf bychan. Felly, ni ddylid ystyried canlyniadau'r sgan fel yr unig ffordd o gael diagnosis o anaf i'r ymennydd. Os daw canlyniadau sgan yn ôl yn glir ac rydych yn sicr eich bod yn teimlo effeithiau anaf i'r ymennydd, ceisiwch gymorth gan eich meddyg teulu. Ceir gwybodaeth i feddygon teulu ynghylch gwneud diagnosis o anafiadau i'r ymennydd yn y daflen ffeithiau

[*Rheoli anaf caffaeledig i'r ymennydd – canllaw i feddygon teulu.*](#)

Casgliad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnig gwybodaeth am y prif sganiau a'r profion a gynhelir yn dilyn anaf i'r ymennydd, o'r amser y bydd rhywun yn cyrraedd yr adran argyfwng i'r



ymchwiliadau dilynol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn tawelu eich meddwl chi a'ch teulu os cewch eich atgyfeirio at un o'r sganiau neu brofion hyn.

Cofiwch y bydd gan wahanol ysbytai wahanol adnoddau. Felly, bydd y sgan yr atgyfeirir chi ato yn dibynnu ar y math o ymchwiliad sydd ei angen yn ogystal â'r hyn sydd ar gael yn eich ardal.

Siaradwch â'ch meddyg neu arbenigwr i gael cyngor unigol neu os oes gennych fwy o gwestiynau neu bryderon am y sgan o'r ymennydd y cawsoch eich atgyfeirio iddo.

Geirfa

Sgan cyfunol – cyfuniad o ddau sgan a wneir ar y cyd i gael llun mwy eglur o'r ymennydd, er enghraifft yr enw ar sgan CT a wneir yr un pryd â sgan PET yw sgan PET-CT.

Llifyn cyferbyniad - llifyn dros dro sy'n cael ei chwistrellu i lif y gwaed sy'n gwneud hi'n haws gweld organau penodol pan y'i defnyddir ar y cyd â sganiau CT a MRI.

Electrod – darn bach o fetel neu sylwedd arall sy'n gallu crynhoi gweithgarwch trydanol. Mae electrodau a ddefnyddir mewn sgan EEG yn mesur gweithgarwch trydanol naturiol yr ymennydd a'i anfon i gyfrifiadur i gael ei brosesu er mwyn cofnodi gweithgarwch yr ymennydd. Nid yw electrodau yn allyrru trydan ac nid ydynt yn boenus.

Radiograffydd – technegydd sydd wedi ei hyfforddi yn benodol i wneud sganiau meddygol a rhoi radiotherapi i gleifion.

Radiologydd – meddyg sy'n arbenigo mewn gwneud diagnosis a thrin afiechydon pan ddefnyddir technegau delweddu meddygol.

Olinydd ymbelydrol - sylwedd ag ymbelydredd gwan a roir drwy chwistrelliad, sy'n amlygu ardaloedd o weithgarwch yn yr ymennydd pan gaiff ei ddefnyddio ar y cyd â sganiau PET a SPECT.

Cydnabyddiaeth: llawer o ddiolch i Nicole Sycamore, MSc, a fu o gymorth mawr wrth greu'r daflen ffeithiau hon.